CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am – 7:00 pm, nos Lun 29 Mehefin 2026 Ystafell Gymunedol, Ysgol Bro Cinmeirch ac ar ZOOM

Yn bresennol: Arwel Davies (Cadeirydd), Ian Evans (Is-gadeirydd), , Bari Evans Edmund Evans, Philip Williams, Rhian Wyn Jones, Helen Jones, Stephen Williams.

1.**Ymddiheuriadau**: Manon Davies.

2. Adran siarad cyhoeddus: Dim.

3. i. **Cofnodion cyfarfod 18fed Mai 2026**

Cynigiwyd y rhain fel cofnod cywir: Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Rhian Wyn Jones

ii. **Cofnodion cyfarfod 22ain Mehefin 2026**

Cynigiwyd y rhain fel cofnod cywir: Cynigiwyd: Bari Evans Eiliwyd: Helen Jones

4. Croeso i'r cynghorydd newydd: Croesawyd y Cynghorydd Ceri Davies i'r Cyngor yn dilyn ei chyfethol.

5. Cyllid

i. Taliadau

a)	Y Clerc (E.M. ab Owain) Gwaith Clerc Mehefin 2026	£305.00
b)	Costau'r Clec Mehefin 2026	£35.18
c)	HMRC (PAYE) Mehefin 2026	£102.20
d)	Clear Councils (ysiwriant - gweinyddiaeth)	£55.00
e)	Gwyn Mawby (cyfrifion)	£100.00
f)	Harold Smith (costau gweinyddol)	£36.00
g)	Sir Ddinbych (llogi ystafell x 3)	£60.00
h)	Dylan Rhys Jones (archwiliad mewnol)	£85.00
i)	Rhian Wyn Jones (lwfans cynghorydd) 2025-6	£208.00
j)	Philip Williams (lwfans cynghorydd) 2025-6	£208.00
k)	Arwel Davies (lwfans cadeirydd) 2025-6	£1500.00
l)	Ian Evans (lwfans is-gadeirydd) 2025-6	£500.00

Esboniodd y Clerc fod hysbysiad codio (o'r HMRC) wedi cyrraedd ar ôl i'r agenda gael ei bostio yn lleihau ei gyflog o £326.00 i £305.20 ac yn cynyddu ei PAYE o £81.40 i £102.20.

Roedd y Clerc wedi cael fynediad ar-lein i gyfrifon HSBC ac awgrymodd ychwanegu'r ddau lofnodwr, y Cynghorwyr Bari Evans ac Ian Evans, fel y gallem wneud taliadau ar-lein.

ii. Adroddiad banc: BMM £31,044.05 Elusennol £10,699.20.
iii. Adroddiad yr Archwilydd Mewnol.
Roedd adroddiad yr Archwilydd Mewnol ar gyfer 2025/26 wedi'i dderbyn. Cynigiwyd bod y Cyngor yn derbyn ei adroddiad.

Cynigiwyd: Arwel Davies Eiliwyd: Stephen Williams

Yna llofnododd y Cadeirydd a'r RFO (y Clerc) y return archwilio.

6. **Byrddau Hanes**

   Roedd y Clerc wedi derbyn un dyfynbris am 5 bwrdd gyda dolenni cod QR - £7,800. Gofynnwyd iddo gael o leiaf dau arall.
   Byddai'r Cynghorydd Ian Evans yn gofyn i Dyfed o Amgueddfa Sir Ddinbych ddod i'r cyfarfod nesaf i siarad ar y testyn. Yna byddai'r Cynghorydd Williams yn furfio grŵp i drafod cynnwys y byrddau.

7. **Cynghorydd Sir Newydd**

   Llongyfarchwyd y Cynghorydd Ian Evans ar gael ei ethol yn Gynghorydd Sir Ddinbych dros yr ardal.

8. **Priffyrdd**

   Roedd y Cynghorydd Ian Evans yn llunio rhestr o atgyweiriadau ffyrdd heb eu gwneud ar gyfer y ward a gofynnodd i'r Cynghorwyr roi gwybod iddo am unrhyw rai yn eu hardal. Roedd hefyd yn edrych ar gael terfyn cyflymder ar gyfer Y Glyn.

9. **Ceisiadau cynllunio:**

   i. Y Paddocks. Roedd y Cadeirydd o'r diwedd wedi derbyn ymateb gan dîm gorfodi cynllunio Sir Dinbych. Byddai'n gofyn iddynt pa gamau penodol yr oeddent yn eu hystyried i orfodi'r gyfraith.

   ii. 23/2026/0228/AC. PENTRE ISA, Llanrhaeadr, Denbigh, Denbighshire, LL16 4PD: **Dim gwrthwynebiad.**

10. **CAB Sir Ddinbych:**

    Roedd Swyddfa Cynghori ar Bopeth Sir Ddinbych wedi sicrhau cyllid i redeg gwasanaeth allgymorth yn ardal wledig y Sir ac roeddent yn edrych ar lythyrau cefnogaeth gan Gynghorau Cymuned.

    Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu atynt yn mynegi cefnogaeth y Cyngor.

11. **Materion brys a godwyd gan y Cynghorwyr:** Dim.

12. **Cyfarfod nesaf:** 27ain Gorffennaf 2026.